**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

23 Tachwedd 2023

Annwyl Lesley

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) (Diwygio) 2023

Yn ein cyfarfod ar 20 Tachwedd 2023 gwnaethom ystyried Rheoliadau drafft Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023 ac ymateb Llywodraeth Cymru i'n pwyntiau adrodd drafft. Byddwch yn ymwybodol bod ein adroddiad terfynol, ers hynny, wedi ei osod gerbron y Senedd.

Er ein bod yn croesawu cael ymateb Llywodraeth Cymru i'n pwyntiau adrodd drafft mewn pryd i'r ymateb gael ei gynnwys fel rhan o'n hystyriaeth lawn o'r Rheoliadau drafft, erys rhai materion yr ydym yn ystyried bod angen rhagor o wybodaeth ac eglurhad arnynt.

Mae ein hail bwynt adrodd technegol yn amlygu bod Rheoliad 3(5C) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 wedi peidio â chael effaith ar 31 Rhagfyr 2022, yn rhinwedd rheoliad 3(5D) yn y Rheoliadau hynny. Fel y gwyddoch, gwnaethom ofyn sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod defnyddio Rheoliadau 2023 i amnewid y dyddiad yn rheoliad 3(5D) o Reoliadau 2019 yn adfywio rheoliad 3(5C) o'r un Rheoliadau 2019 hynny.

Mewn ymateb, cawsom wybod, "nid yw rheoliad 3(5C) erioed wedi cael ei ddirymu, ond nid yw wedi cael unrhyw effaith gyfreithiol (hyd nes y Rheoliadau hyn) ers 1 Ionawr 2023". At hynny, cawsom wybod fod "rheoliad 3(5D) fel y'i diwygiwyd bellach ac sy'n sefyll ar wahân i reoliad 3(5C) yn adfywio rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 drwy ddarparu ar gyfer parhad effaith rheoliad 3(5C) yn ystod y cyfnod yn ôl-weithredol".

Rydym ar ddeall fod rheoliad 3(5D) yn Rheoliadau 2019 i bob pwrpas wedi dirymu rheoliad 3(5C) ar 31 Rhagfyr 2022; mae dweud fod paragraff (5C) yn peidio â chael effaith ("*ceases to have effect*") yn gyfystyr â dirymiad ar y dyddiad penodedig, hyd yn oed os na ddefnyddir y gair "dirymu" yn benodol. Felly, rydym o'r farn, ar ôl 31 Rhagfyr 2022, bod paragraff (5D) yn rheoliad 3 wedi parhau yn ei le ond nad oedd iddo unrhyw effaith gyfreithiol, tra bod paragraff (5C) wedi'i ddirymu. Mae'r cyngor a gawsom yn nodi y gallai paragraff (5D) gael ei adfywio drwy ddiwygio'r dyddiad perthnasol (yn amodol ar unrhyw bryderon ynghylch elfen(nau) ôl-weithredol). Rydym yn parhau i fod yn aneglur pam nad oes angen ailddatgan paragraff (5C) yn benodol er mwyn sicrhau bod y paragraff diwygiedig (5D) yn cael ei effaith gyfreithiol arfaethedig. Ymddengys fod hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor a nodir yn *Neddf Dehongli 1978* a *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* fel ei gilydd, nad yw diddymu darpariaeth sy'n diddymu (A) gan ddarpariaeth (B) yn adfywio unrhyw beth a ddiddymwyd gan (A) yn absenoldeb geiriau datganedig i'r perwyl hwnnw. Hyd yn oed os oes amheuaeth ynghylch yr angen llym i ailddatgan paragraff (5C) o reoliad 3, rydym o'r farn y byddai'n rhoi sicrwydd cyfreithiol ac eglurder i'r darllenydd, sy'n arbennig o bwysig pan fo deddfwriaeth yn cael ei newid yn ôl-weithredol.

Byddem, felly, yn croesawu rhagor o wybodaeth i egluro pam nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ailddatgan yn benodol baragraff (5C) o reoliad 3 yn Rheoliadau 2019.

Mae ein trydydd pwynt adrodd yn nodi ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng y Nodyn Esboniadol ac effaith y diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn. Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y Nodyn Esboniadol yn nodi: "Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 drwy ddarparu mai 30 Mehefin 2025 yw'r dyddiad perthnasol i ffioedd ddod yn daladwy o dan reoliad 5A(4A). Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 drwy ddarparu mai 30 Mehefin 2025 yw'r dyddiad perthnasol i ffioedd ddod yn daladwy o dan reoliad 3(5C)." Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod rheoliad 5A(4A) o Reoliadau 2018 a rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 yn darparu ar gyfer eithrio rhag talu ffioedd, ond nid yw'r ffioedd yn daladwy o dan y paragraffau penodol hyn ac unwaith y bydd y ffioedd. yn dod yn daladwy, mae'r paragraffau hyn yn peidio â chael effaith. At hynny, rydym yn ystyried mai effaith y diwygiadau yw bod rheoliad 5A(4A) o Reoliadau 2018 a rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025, ac felly bydd y ffioedd yn dod yn daladwy ar 1 Gorffennaf 2025.

Mewn ymateb, cawsom wybod fod eglurder a chysondeb yn y Nodiadau Esboniadol gyda'r Rheoliadau yn ddymunol. Cawsom wybod ymhellach nad yw'r Nodiadau Esboniadol, fodd bynnag, yn rhan o'r Rheoliadau ac mae'r Rheoliadau wedi'u datgan yn gywir.

Er nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau, maent yn ymddangos ochr yn ochr â'r Rheoliadau yn yr un ddogfen. Byddem yn ddiolchgar am eich barn ynghylch a allai Nodyn Esboniadol sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n anghyson â'r rheoliadau cyfatebol effeithio'n andwyol ar hygyrchedd y gyfraith.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau drafft – sydd i'w chynnal ar 28 Tachwedd 2023 – yn ogystal â darparu ymateb ysgrifenedig llawn erbyn 30 Tachwedd 2023.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd